

Y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2022

12.00 tan 1:30pm yn ystafelloedd cynadledda C a D, Tŷ Hywel a trwy Microsoft Teams

Yn bresennol ac ymddiheuriadau: Gweler y rhestrau atoddedig.

Croeso a chyflwyniad: Croesawodd Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd) y cyfranogwyr i'r cyfarfod, sef y cyfarfod cyntaf a gynhaliwyd mewn fformat hybrid.

Trafodaeth banel ar ddiogelwch a sicrwydd teithwyr llesol

Cyflwynodd y Cadeirydd y panel a gwahodd bob un ohonynt i roi cyflwyniad agoriadol byr:

Amlinellodd **Teresa Ciano**, Rheolwr Partneriaeth Gan Bwyll Cymru, nodau Gan Bwyll, sef 'Gwneud ffyrdd Cymru'n fwy diogel drwy beirianeg, addysg a gorfodaeth', wedi'i gyflawni gan: 'Lleihad parhaus yn nifer y bobl sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru, gyda'r nod yn y pen draw o ddim marwolaethau yn y dyfodol'. Mae'r sefydliad yn bartneriaeth sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, pedwar awdurdod heddlu Cymru a'r 22 awdurdod lleol. Roeddent yn gweithredu dyfeisiau gwirio cyflymder sefydlog a symudol ledled Cymru. Buont hefyd yn rheoli Ymgyrch Snap a oedd yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd gyflwyno tystiolaeth fideo neu ffotograffig o ddefnydd anystyriol o'r ffyrdd. Cafwyd 5,400 o gyflwyniadau i'r cynllun yng Nghymru yn 2021 gan arwain at dros 1,500 o rybuddion a 2,500 o atgyfeiriadau i gyrсияu addysgol i yrwyr neu erlyniadau.

Siaradodd **Uwcharolygydd Mark Cleland**, Heddlu Trafnidiaeth Prydain, am ei waith yn brwydro yn erbyn lladrad beiciau ac am y Bartneriaeth Lleihau Troseddau Beic yng Nghaerdydd a Chasnewydd. Eglurodd yr effaith sylweddol a gafodd y drosedd ar gyfraddau teithio llesol gyda 25 y cant o ddiodefwr byth yn beicio eto a 66 y cant yn debygol o feicio'n llai aml. Roedd dwyn beiciau yn cyfrif am 2 y cant o'r holl droseddau gyda 3 y cant yn unig o feiciau a oedd wedi'u dwyn yn cael eu hadennill. Roedd y prif faterion yn cynnwys ansawdd cloeon beiciau – yn aml yn annigonol – a gallu lladron i werthu'r beiciau drwy lwyfannau ar-lein. Mae'r Ymgyrch Troseddau Beicio Cenedlaethol yn gweithio gyda'r llwyfannau hyn i nodi ac atal gweithgarwch troseddol. Fodd bynnag, hyd yn oed pan nodir beiciau fel elw trosedd, ni ellir cymryd camau yn erbyn y gwerthwr oni bai y gellir adnabod y perchennog, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r beic gael ei gofrestru. Mae'n awyddus i weld system gofrestru ar y pwynt gwerthu.

Siaradodd **Josh James**, Rheolwr Materion Cyhoeddus Living Streets Cymru, am y materion cydraddoldeb sylweddol sy'n ymwneud â diogelwch personol teithwyr llesol, gan amlygu'r lefel drallodus o uchel o ymosodiadau misogynistaidd, hiliol a homoffobig. Dylai fod hawl i fod yn ddiogel ar ein strydoedd; roedd diffyg teimlad o ddiogelwch personol yn rhwystr mawr i gael mwy o bobl i gerdded a beicio. Galwodd am fwy o amrywiaeth ymhlith y bobl sy'n llunio polisïau. Tynnodd sylw at balmentydd Cymru a oedd yn aml yn gul a'u cyferbynnu

â llwybrau cerdded eang Barcelona a'r flaenoriaeth i gerddwyr ar groesfannau ffordd. Mynegodd bryder ynghylch yr effaith negyddol y gallai mannau a rennir ei chael ar y rhai â nam gweledol. Galwodd am agwedd fwy beiddgar at seilwaith cerddwyr a chanmol y gwaith o dreialu croesfannau sebra heb eu rhagnodi (neu syml) ar gyffyrdd sy'n cael eu cynnal yng Nghaerdydd ar hyn o bryd. Croesawodd yr adolygiad o Reolau'r Ffordd Fawr ond roedd yn siomedig am y cyfathrebu gwael ynghylch y newidiadau.

Siaradodd **Phil Jones**, Cadeirydd Tasglu 20 mya Llywodraeth Cymru, am bwysigrwydd sylfaenol rheolau traffig ar gyfer teithio llesol. Roedd perthynas gref rhwng rheolau a'r hyn oedd yn digwydd yn ymarferol ar y ffyrdd. Soniodd am ei falchder yng nghynigion parcio 20mya a phalmentydd Cymru a thynnu sylw at bwysigrwydd marchnata'r newidiadau'n effeithiol. Cyfeiriodd at enghreifftiau o ddulliau arloesol mewn gwledydd eraill, megis Denmarc lle'r oedd dyletswydd gyffredinol ar yrwyr i ildio wrth droi ar gyffordd. Cynigiodd nifer o awgrymiadau yr oedd yn credu y dylai Cymru eu hystyried:

Croesfannau cyfochrog (h.y. croesfannau cyfagos i gerddwyr a beicwyr) ar ffyrdd ymyl.
Marciau 'traed eliffant' ar ffyrdd ymyl i roi blaenoriaeth i feicwyr dros draffig ffyrdd ymyl.
Rhoi pwerau i awdurdodau lleol orfodi cyfyngiadau 20 mya
Beicio awtomatig, dwy ffordd ar bob stryd un ffordd wedi'i gyfyngu i 20 mya
Symleiddio'r broses sydd ei hangen ar gyfer Gorchymyn Rheoleiddio Traffig

Yn y drafodaeth gyffredinol a gafwyd yn dilyn hynny, gwnaed y pwyntiau allweddol a ganlyn: Atebolrwydd tybiedig – mewn llawer o wledydd rhagdybir bod gyrwyr cerbydau modur yn atebol mewn unrhyw wrthdrawiad â defnyddiwr ffordd sy'n agored i niwed, oni ellid cyflwyno hyn i'r DU? Teimlwyd bod yr hierarchaeth newydd o ddefnyddwyr yn Rheolau'r Ffordd Fawr yn gam i'r cyfeiriad hwn. Roedd Josh yn cefnogi atebolrwydd tybiedig a siaradodd am bwysigrwydd goresgyn 'anghydbwysedd pŵer' i deithio llesol.

Roedd llwybrau teithio llesol yn seilwaith hanfodol i bobl anabl a oedd yn defnyddio sgwteri, ond er mwyn gallu eu defnyddio, roedd yn rhaid iddynt fod ag arwyneb da, wedi'u goleuo'n dda a heb physt. Er mwyn gwireddu hyn roedd angen mwy o bobl anabl i fod yn rhan o'r gwaith o gynllunio llwybrau.

Pwysigrwydd arweinyddiaeth wleidyddol wrth leihau dibyniaeth ar geir. Abertawe oedd y 34ain, a Chasnewydd y 36ain ddinas fwyaf dibynnol ar geir yn y DU.

Roedd yr arbrawf 20 mya yn y Fenni yn profi'n effeithiol, gan fod ymlynwyr i'r terfyn i bob pwrpas wedi dod yn 'geir cyflymder diogel' ar gyfer traffig arall. Fodd bynnag, roedd angen gorfodi. Eglurodd Teresa fod gorfodi cyfyngiadau 20 mya yn digwydd ond efallai nad oedd digon wedi'i wneud i wneud pobl yn ymwybodol o hyn.

Pwysigrwydd sicrhau bod data 'pasio agos' ar gael i awdurdodau lleol i'w helpu i nodi meysydd lle'r oedd damweiniau a fu bron â digwydd, yn hytrach na damweiniau gwirioneddol, yn digwydd. Roedd llawer o'r problemau a achoswyd gan yrwyr anystyriol i deithwyr llesol hefyd yn cael eu dioddef gan farchogion, gan gynnwys cam-drin misogynistaidd. Roedd marchogion hefyd yn defnyddio Ymgyrch Snap i adrodd am ddigwyddiadau.

Mae diogelwch personol mewn gorsafoedd rheilffordd heb staff yn bryder arbennig, a gallai gwell goleuadau a recordiadau fideo helpu i fynd i'r afael ag ef. Anogodd Mark bobl i adrodd

am bryderon i Heddlu Trafnidiaeth Prydain, gan anfon neges destun at 61066. Anogodd hefyd bobl a oedd wedi gweld rhywun ar fin dwyn beic i ffonio 999 ac i adrodd am weithgarwch troseddol a amheuir ar farchnadoedd ar-lein.

Roedd angen mwy o dystiolaeth ar y potensial ar gyfer teithio llesol mewn ardaloedd gwledig.

Dylid ystyried datblygu 'lonydd tawel'.

Gallai mesurau sydd wedi'u hanelu at amddiffyn plant rhag cerbydau, megis strydoedd ysgol, ddarparu porth i gynlluniau ehangach fel cymdogaethau traffig isel.

Diolchodd y Cadeirydd i'r panel am eu cyflwyniadau rhagorol.

Diweddariad ar yr adolygiad o'r Ddeddf Teithio Llesol

Cyn dechrau'r eitem ar yr agenda, tynnodd y Cadeirydd sylw'r cyfarfod at ddau ddatblygiad diweddar pwysig. Yn gyntaf, yn deillio o adroddiad Tasglu Ffyrdd sydd Heb eu Mabwysiadu Llywodraeth Cymru, roedd set newydd o safonau dylunio ar gyfer datblygiadau tai a masnachol newydd, a elwir yn safonau cyffredin, wedi'i chyhoeddi rhyw ddwy flynedd ynghynt. Yn anffodus, nid oedd y safonau wedi rhoi ystyriaeth briodol i ddeddfwriaeth a chanllawiau teithio llesol Cymru. Roedd swyddogion y grŵp wedi pwyso am newidiadau mawr i'r ddogfen, a, gyda chefnogaeth y Dirprwy Weinidog, roedd fersiwn newydd wedi cael ei chynhyrchu a oedd yn ymgorffori'r gwelliannau arfaethedig. Byddai dolen i'r safonau newydd yn cael ei ddsbarthu unwaith y byddent yn ymddangos ar-lein. Yn ail, yn y bwlch rhwng cyfarfodydd y grŵp, roedd Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad ar eu cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer trafndiaeth. O ystyried y gorgyffwrdd sylweddol rhwng y cynllun a'r argymhellion yn adolygiad y grŵp o'r Ddeddf Teithio Llesol, roedd y swyddogion wedi teimlo ei bod yn bwysig i'r grŵp ymateb, er nad oedd yn bosibl galw cyfarfod llawn. Roedd y swyddogion wedi drafftio ymateb ac wedi ymgynghori ag aelodau AS y grŵp hwn cyn ei gyflwyno. Prif bwyslais yr ymateb, yr oedd copi ohono wedi'i ddsbarthu i'r sawl a oedd yn bresennol, oedd yr angen i weithredu argymhellion adolygiad y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol, ond hefyd mynegi siom gydag amwysedd llawer o'r cynllun ac, yn arbennig, y newid pryderus iawn i'r hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy i roi'r gwaith o gynnal y seilwaith presennol uwchlaw cerdded a beicio. Dywedodd Richard Brunstrom wrth y cyfarfod fod y diffiniad diwygiedig hefyd wedi ymddangos yn y drafft newydd o WelTAG. Yn ogystal, mynegodd bryder ynghylch y diffiniad amwys o 'gynnal' seilwaith, a fyddai'n berthnasol yn bennaf i ffyrdd, ac a allai amharu'n ddifrifol ar ffocws Llywodraeth Cymru ar newid moddol. Cytunodd y Cadeirydd i godi'r ddau fater hyn gyda'r Dirprwy Weinidog.

Amlinellodd y Cadeirydd y cefndir i adolygiad y grŵp o'r Ddeddf Teithio Llesol a darllen yr ymateb i'r adolygiad gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd (ceir ei destun yn atodiad 1). Roedd y Dirprwy Weinidog wedi croesawu adroddiad yr adolygiad ac wedi ymrwymo i 'dderbyn cymaint o'r pwyntiau' ag y gallai. Roedd hefyd wedi ymrwymo i barhau i ymgysylltu â swyddogion y grŵp wrth ddatblygu'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Teithio Llesol a oedd wedi bod yn un o argymhellion allweddol yr adroddiad. Mynegodd y Cadeirydd obaith ynghylch yr ymateb cadarnhaol gan y Gweinidog a chadarnhau y byddai'r swyddogion yn parhau i bwysu am weithredu'r 51 o argymhellion yn yr adroddiad yn llawn.

Yna adroddodd yr ysgrifennydd ar drafodaeth gyda Chadeirydd y Bwrdd Teithio Llesol, a oedd wedi cadarnhau bod y bwrdd yn cael ei ad-drefnu yn unol â'r argymhellion yn adroddiad y grŵp, yn benodol: y byddai gan y bwrdd ysgrifenyddiaeth annibynnol, aelodau mwy annibynnol, swyddogaeth graffu glir, a byddai'n cyhoeddi adroddiad blynyddol.

Cofnodion y cyfarfod blaenorol: Cytunwyd eu bod yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

Unrhyw fater arall: Dim wedi'u hysbysu na'u codi.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.30pm

Atodiad 1: Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd yn ymateb i Adroddiad y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol ar yr adolygiad o'r Ddeddf Teithio Llesol.

11 Tachwedd 2022

Annwyl Huw,

Rwyf yn wirioneddol ddiolchgar am waith caled a phroffesiynoldeb y grŵp trawsbleidiol yn ei adolygiad o'r Ddeddf Teithio Llesol. Mae'n adroddiad cryf iawn ac mae'n sail i adolygiad ffurfiol Llywodraeth Cymru. Cytunaf yn gryf â phrif bwyslais yr argymhellion a'r dadansoddiad, a byddaf yn ceisio derbyn cymaint o'r pwyntiau ag y gallaf. Rwyf eisoes wedi cytuno ar rai newidiadau i'r Bwrdd Teithio Llesol yn seiliedig ar yr her yn yr adroddiad.

Yn hytrach na cheisio ymateb yn ffurfiol i'ch adroddiad byddwn yn ei gynnwys yn y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Teithio Llesol y byddwn yn ei gyhoeddi, fel yr argymhellwyd gennych. I hysbysu hynny, rydym yn coladu ac yn dadansoddi ffynonellau tystiolaeth ychwanegol a all ein cynorthwyo i ddeall effaith y Ddeddf Teithio Llesol hyd yn hyn. Mae'r gwaith hwn yn tynnu, er enghraifft, ar yr adroddiadau blynyddol a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol, esblygiad eu cynlluniau rhwydwaith, y fframwaith ariannu, yn ogystal ag arolwg a gomisiynwyd i gael dealltwriaeth o ganfyddiadau ac ymddygiad y cyhoedd.

Rwy'n bwriadu cwblhau'r adolygiad yn gynnar yn 2023 a fydd yn cynnwys y camau yr ydym yn mynd i'w cymryd.

Byddaf yn cadw mewn cysylltiad â'ch swyddogion wrth inni ddatblygu'r gwaith hwn a chroesawaf yn gynnes eich her a'ch cefnogaeth barhaus.

Yn gywir,

Lee Waters AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

Yn bresennol

Yn bresennol yn y cnawd			
Enw cyntaf	Cyfenw	Teitl swydd	Sefydliad
Ken	Barker		Cycling UK
Ioan	Bellin	SCA	Rhys ab Owen AS
Rebecca	Brough	Rheolwr Polisi ac Eiriolaeth	Ramblers Cymru
Neil	Canham	Pennaeth Cyflawni a Phartneriaethau (Newid Ymddygiad), Sustrans Cymru	Sustrans Cymru
Mark	Cleland	Uwcharolygydd	Heddlu Trafnidiaeth Prydain
Dan	Coast	Ysgrifennydd	Beicio Casnewydd
Helen	Donnan	Swyddog Maes Mynediad, Cymru	Cymdeithas Ceffylau Prydain
Sian	Donovan	Cyfarwyddwr	Pedal Power
Richard	Evans	Cadeirydd	Hyfforddiant Beicio Cymru
Kevin	Harry	Intern	Grym Cyfartal, Llais Cyfartal
Huw	Irranca-Davies	Aelod o'r Senedd	Senedd Cymru
Josh	James	Rheolwr Materion Cyhoeddus	Living Streets
Phil	Jones	Cadeirydd	PJA
Hugh	Mackay		Cycling UK, Bro Morgannwg
Hilary	Mai		ValeVeloWays
Sarah	Mitchell	Prif Weithredwr	Cycling UK
David	Naylor		Wheelrights
Gwenda	Owen	Swyddog Ymgysylltu – Cymru	Cycling UK
Gareth	Price	Clerc	Senedd Cymru
Chris	Roberts	Ysgrifennydd	Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol
Kaarina	Ruta	Cynorthwy-ydd Trafnidiaeth	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
John	Sayce	Cadeirydd	Wheelrights
Phil	Snaith	Ysgrifennydd	Fforwm Beicio Sir Gaerfyrddin
Yn bresennol trwy Teams			

Enw cyntaf	Cyfenw	Teitl swydd	Sefydliad
Ruth	Billingham	Pennaeth Ymgyrchoedd a Materion Cyhoeddus	Living Streets
Lindsey	Brown	Swyddog Teithio Llesol (Ysgolion)	Cyngor Caerdydd
Richard	Brunstrom		Cycling UK, Gogledd Cymru
Teresa	Ciano	Rheolwr Partneriaethau	Gan Bwyll, Diogelwch Ffyrdd Cymru
Duncan	Dollimore	Pennaeth Eiriolaeth ac Ymgyrchoedd	Cycling UK
Ryland	Doyle	Swyddog Cyfathrebu ac Ymchwil	Mike Hedges AS
David	Edwards		Cymuned Beicio Casnewydd
Hazel	Evans	Cynghorydd	Cyngor Sir Gaerfyrddin
Matthew	Gilbert	Arweinydd Teithio Llesol	Trafnidiaeth Cymru
Shelly	Godfrey-Coles	Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Chymunedau	Lee Waters AS
Danny	Grehan	Staff Cymorth Aelodau	Heledd Fychan AS
Stephen	Hughes		
Kirsty	James	Swyddog Ymgyrchu	RNIB (Cymru)
Aled	Jones	Arweinydd Beicio Cenedlaethol	Beicio Cymru
Keith	Jones	Cyfarwyddwr	ICE Wales Cymru
Lyndon	Jones	Arweinydd Grŵp y Ceidwadwyr	Dinas a Sir Abertawe
Ryland	Jones	Pennaeth Cysylltu Cymunedau	Sustrans Cymru
Richard	Keatinge	Ysgrifennydd	Beicio Bangor
Andrew	Minnis	Arweinydd y Tîm Ymchwil	Senedd Cymru
Hannah	Peeler	Cydlynnydd Polisi a Materion Cyhoeddus	Sefydliad Prydeinig y Galon
Sarah	Philpott	Swyddog y Wasg ac Ymchwil	Rebecca Evans AS
Sean	Pwrsi	Cadeirydd, yr Amgylchedd, Adfywio a Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Stryd	Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Dareyoush	Rassi	Ysgrifennydd	Wheelrights
Brandon	Renard	Swyddog Cyfathrebu a Chyswllt	Sarah Murphy AS
Paula	Renzel		Transport Action Network Cymru
Emma	Sandrey		
Gwyn	Smith	Rheolwr Datblygu Rhwydwaith De Cymru	Sustrans
Luke	Stacey	Swyddog Datblygu Mynediad a Hawliau Tramwy Cyhoeddus	Cyngor Casnewydd
Paul	Streets	Ysgrifennydd	Dinas Feicio Caerdydd

Paul	Sullivan	Rheolwr Ieuenctid, Chwaraeon a Theithio Llesol	MonLife, Cyngor Sir Fynwy
Beth	Taylor	Ymchwilydd i'r Grŵp	Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig
Will	Thomas	Cynghorydd	Dinas a Sir Abertawe
Jack	Thurston	Cadeirydd	Grŵp Beicio'r Fenni
Tom	Wells		Teithio Llesol Gorllewin Cymru
Mark	Weston	Cyfarwyddwr Mynediad	Cymdeithas Ceffylau Prydain
Roisin	Willmott	Cyfarwyddwr	Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru
Leah	Young	Swyddog Prosiectau Teithio Llesol	Cyngor Casnewydd

Ymddiheuriadau:

Rhun ap Iorwerth, Aelod o'r Senedd, Senedd Cymru
 Joseph Carter, Pennaeth y Cenhedloedd Datganoledig, Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint
 Christine Farr, Tîm Llesiant Strategol Bro Morgannwg
 Janet Finch-Saunders, Aelod o'r Senedd, Senedd Cymru
 Heledd Fychan AS, Aelod o'r Senedd, Senedd Cymru
 Llyr Gruffydd, Aelod o'r Senedd, Senedd Cymru
 Delyth Jewell, Aelod o'r Senedd, Senedd Cymru
 John Mather, Beicio DU (Gogledd Cymru)
 Peredur Owen Griffiths, Aelod o'r Senedd, Senedd Cymru
 Gemma Roberts, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, Sefydliad Prydeinig y Galon
 Alan Tapp, Athro Marchnata Cymdeithasol, UWE
 Carolyn Thomas, Aelod o'r Senedd, Senedd Cymru